OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 626 (Cy.90)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Mawrth 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *7 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Dynodwyd Gweinidogion Cymru at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid sy'n cael ei gynhyrchu neu ei fwydo i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd(**2**), polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(**3**) a mesurau ym meysydd milfeddygol a ffytoiechydol i ddiogelu iechyd y cyhoedd(**4**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**5**), bu ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd wrth baratoi a gwerthuso'r Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2011.

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2005/1971. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y dynodiad hwn i Weinidogion Cymru gan baragraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).
(**3**) O.S. 2010/2690.
(**4**) O.S. 2008/1792.
(**5**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC mewn cysylltiad â'r weithdrefn reoleiddio ynghyd â chraffu: Addasu at y weithdrefn reoleiddio ynghyd â chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

**Diwygio'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(**6**) wedi eu diwygio yn unol â'r paragraff a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 12 (yr hawl i apelio), hepgorer paragraffau (5) i (7).

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

2 Mawrth 2011

(**6**) O.S. 2009/3376 (Cy.298).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn (yn *rheoliad 2*) yn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (O.S. 2009/3376 (Cy.298)) drwy hepgor paragraffau (5) i (7) o reoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

**2.** Yr oedd y paragraffau hynny yn gwneud darpariaeth i weithredydd busnes bwyd, a oedd wedi apelio yn erbyn gwrthod neu dynnu'n ôl awdurdodiad ar gyfer sefydliad busnes bwyd, barhau i weithredu'r sefydliad tra'n aros am ganlyniad yr apêl honno.

**3.** Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi o gostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, ac y mae ar gael gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Caerdydd, CF10 1EW.